| Risg | Targed Sgôr y Risg | Sgôr Risg Cyfredol | Statws Presennol | Corff Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| G.1 | 10 | 10 | | GS (Is-Grŵp Adolygu Risg) | Mae tebygolrwydd y Risg wedi ei leihau o 3 i 2 o ganlyniad i'r rheoliadau ychwanegol y mae'r PPC wedi eu rhoi ar waith; mae'r rhain yn cynnwys eitem sefydlog yn ymwneud â 'Diweddariadau Rheoleiddio a Llywodraethu' yng nghyfarfodydd y GS, hwyluso sesiwn hyfforddi yn ymwneud yn benodol â rheoliadau a chanllawiau a derbyn diweddariadau datblygu rheoliadau ychwanegol ar gyfer y Gweithredwr. |
| G.2 | 6 | 3 | | GS (Is-Grŵp Adolygu Risg) | Mae tebygolrwydd y risg wedi ei ostwng o 2 i 1; mae hyn yn adlewyrchu cynnydd PPC wrth roi ar waith yr hyn a ganlyn:<br>• Is-grwpiau ychwanegol - mae'r grwpiau hyn yn darparu fforwm ar gyfer trafodaethau a dadlau manylach, tra hefyd yn ychwanegu haen ychwanegol i strwythur llywodraethu cyffredinol a gwiriadau a mantoli PPC<br>• Polisi Hyfforddiant penodol - bydd hwn yn cyfyngu ar y tebygolrwydd o fylchau mewn gwybodaeth<br>• Cynrychiolydd aelodau'r cynllun ar y CBLl - bydd yr aelod hwn yn darparu haen ychwanegol o ran herio ac amrywiaeth safbwyntiau |
| G.3 | 4 | 8 | | Awdurdod Lletya / GS | Mae rheoliadau risg ychwanegol wedi eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae angen gweithredu pellach er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y risg hwn yn digwydd; bydd hyn yn canolbwyntio ar ffioedd Rheolwyr Buddsoddiadau a ffioedd y Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau. Bydd PPC yn canolbwyntio ar wella tryloywedd a dulliau i wirio fod ffioedd gwaelodol yn unol â'r disgwyliadau. |
| G.4 | 8 | 8 | | Awdurdod Lletya | Mae difrifoldeb y risg bellach wedi ei godi o 2 i 4; mae hyn yn adlewyrchiad o arwyddocâd yr effaith ar enw da a'r dirwyon ariannol a gysylltir â cholli data personol. Bydd PPC hefyd yn llunio risg ychwanegol sy'n ymwneud â data masnachol sensitif / cyfrinachol (Risg G13). |
| G.5 | 8 | 8 | | Awdurdod Lletya | Dim diweddariad; mae'r risg yn parhau i fod wedi ei reoli'n dda ac yn unol â'r targed. Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |
| G.6 | 3 | 3 | | Awdurdod Lletya / GS | Mae tebygolrwydd y risg hwn wedi ei ostwng o 2 i 1, sy'n golygu fod y risg bellach yn cyd-fynd â'r targed. Gostyngwyd tebygolrwydd y risg yn dilyn:<br>• PPC yn rhoi polisi gwrthdaro buddiannau penodol ar waith<br>• Cynnal sesiwn hyfforddiant penodol ar sut i reoli gwrthdaro buddiannau<br>• Gofyn i bersonél a chyflenwyr PPC gwblhau ffurflenni datgan buddiant personol |